




National Audit Office



# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2020-21

Cyllid a Thollau EM

---

**ADRODDIAD**

gan y Rheolwr ac  
Archwilydd Cyffredinol

---

**SESIWN 2021-22**  
**21 IONAWR 2022**  
**HC 1014**

Ni yw corff gwarchod gwariant cyhoeddus annibynnol y DU.

Rydym yn cefnogi Senedd y DU wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ein harchwiliadau o ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer Senedd y DU ac mae'n annibynnol ar lywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydym yn helpu Senedd y DU i ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth i helpu pobl sy'n rheoli cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Gareth Davies, yn un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin ac yn arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian y ffordd y mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario.

Yn 2020, arweiniodd gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol at effaith ariannol gadarnhaol drwy gostau is, gwasanaethau a ddarperir yn well, neu fuddiannau eraill i ddinasyddion gwerth £926 miliwn.



National Audit Office

# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2020-21

## Cyllid a Thollau EM

---

### Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin  
i gael ei brintio ar 19 Ionawr 2022


Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf  
Archwilio Cenedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin  
yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag  
Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i  
diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

---

**Gareth Davies**  
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**  
**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

**10 Ionawr 2022**



Mae'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn ddarostyngedig i hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Gellir copio neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgenhedlu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol cyfyngedig o fewn sefydliad at ddibenion adolygu.

Mae copio at ddibenion anfasnachol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth ddigonol, wedi'i hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun cararweiniol, gyda'r deunydd. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO am unrhyw ddefnydd arall, rhaid i chi gysylltu â [copyright@nao.org.uk](mailto:copyright@nao.org.uk). Dywedwch wrthym pwy ydych chi, y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os o gwbl) a sut a pham rydych chi'n dymuno defnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Sylwer na ellir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon er budd masnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol yr NAO a bod yr NAO yn cadw'r hawl i ddilyn achosion torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd ar gyfer ennill masnachol heb ein caniatâd.

Roedd dolenni i wefannau allanol yn ddilys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni yn y dyfodol.

# Cynnwys

**Ffeithiau allweddol** 4

**Crynodeb** 5

## **Rhan Un**

Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig 11

## **Rhan Dau**

Gweinyddu treth incwm Cymru 18

## **Rhan Tri**

Costau 30

## **Atodiad Un**


Ein dull archwilio 32


Roedd tîm astudiaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys:


Ben Rodin, Freddie Wong, David Williams, Ben Thompson, a Felix McWhirter o dan gyfarwyddyd Darren Stewart. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn.

Am ragor o wybodaeth am y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cysylltwch â:

National Audit Office  
Press Office  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
London  
SW1W 9SP

 020 7798 7400

 [www.nao.org.uk](http://www.nao.org.uk)

 @NAOorguk

## Ffeithiau allweddol

---

**1.3m**

Trethdalwyr Cymreig  
yn 2019-20

---

**£2,041m**

Cyfraddau referniw treth incwm  
Cymru yn 2019-20

---

**£2,110m**

Amcangyfrif Cyllid a Thollau  
EM o gyfraddau referniw treth  
incwm Cymru yn 2020-21

---

**£0.7 miliwn** Costau gweinyddu treth incwm Cymru yn 2020-21.

# Crynodeb

## Cyflwyniad

### Treth incwm Cymru

**1** Rhoddodd Deddf Cymru 2016 bŵer llawn i Senedd Cymru bennu'r cyfraddau (ac eithrio'r lwfans personol) a delir gan drethdalwyr Cymreig ar incwm nad yw'n gynilion na difidendau o 6 Ebrill 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl refeniw treth incwm a gynhrychir o incwm nad yw'n gynilion na difidendau o dan bolisi treth incwm Cymru.

**2** O fis Ebrill 2019, cafodd cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol y Deyrnas Unedig (y DU) eu gostwng 10 pwynt canrannol ac roedd gan Senedd Cymru y pŵer i gymhwyso cyfraddau Cymru. Mae swm cyfraddau gostyngol y DU a chyfraddau newydd Cymru yn pennu'r gyfradd dreth gyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymreig (**Ffigur 1** drosodd). Ar gyfer 2020-21, pennodd Senedd Cymru gyfraddau treth incwm Cymru ar 10% ym mhob band, sy'n cyfateb i gyfraddau'r DU i bob diben, sef 20% (cyfradd sylfaenol), 40% (cyfradd uwch) a 45% (cyfradd ychwanegol).

### Rolau a chyfrifoldebau


**3** Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn gweinyddu ac yn casglu treth incwm Cymru fel rhan o system dreth y DU. Mae CThEM yn nodi trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru drwy roi 'fflag' ar ei systemau sy'n nodi eu bod yn ddarostyngedig i gyfraddau treth incwm Cymru. Trysorlys EM sy'n gyfrifol am dalu treth incwm Cymru i Lywodraeth Cymru.

**4** Yn dilyn diwedd pob blwyddyn dreth, mae CThEM yn llunio amcangyfrif dros dro o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Cyfrifir yr alldro terfynol yn y flwyddyn ganlynol pan fydd CThEM yn cael mwy o wybodaeth gan drethdalwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r alldro terfynol ar gyfer 2019-20 a'r alldro dros dro ar gyfer 2020-21. Mae CThEM yn disgwyl cyhoeddi'r alldro ar gyfer 2020-21 yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22.

### Ffigur 1

#### Cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21

Mae cyfraddau treth incwm y DU yn cael eu gostwng 10c fesul £1 i bob diben a'u disodli gan gyfraddau treth incwm Cymru



#### Nodiadau

- 1 Ar gyfer pob band treth (sylfaenol, uwch ac ychwanegol), mae Llywodraeth y DU yn lleihau swm y dreth y bydd yn ei chasglu 10 ceiniog fesul £1 ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu cyfradd treth incwm Cymru i'w hychwanegu at gyfraddau treth y DU.
- 2 Ar gyfer 2020-21, pennodd Llywodraeth Cymru bob un o gyfraddau treth incwm Cymru ar 10 ceiniog, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymreig yn talu swm sy'n cyfateb o ran treth i gyfradd y DU ar gyfer pob band treth.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru



**5** Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae CThEM wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny eu hasesu a'u casglu'n briodol;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEM sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEM fel treuliau gweinyddol.

**6** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y canlynol:

- cyfrifiad CThEM o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20, yr 'alldro', a sicrwydd ynghylch cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif (Rhan Un);
- amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21 a'n barn am y fethodoleg amcangyfrif (Rhan Un);
- rheolaethau allweddol a weithredwyd gan CThEM wrth asesu a chasglu treth incwm (Rhan Dau);
- y dull a fabwysiadwyd gan CThEM wrth asesu a lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion treth Cymru (Rhan Dau);
- cost gweinyddu treth incwm Cymru. Rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb a thegwch y symiau hyn yng nghyd-destun costau yr eir iddynt gan CThEM (Rhan Tri).

**7** Nodir ein dull a'n methodoleg archwilio yn Atodiad Un.

## Canfyddiadau allweddol

Alldro terfynol treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 a'r amcangyfrif ar gyfer 2020-21

### **8 Yn ôl cyfrifiad CThEM, yr alldro terfynol ar gyfer 2019-20 oedd £2,041 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli symiau a gasglwyd o dan bolisi treth incwm Cymru.**

Amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, oedd £2,008 miliwn, gan olygu bod yr alldro gwirioneddol £33 miliwn yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol gan CThEM.

Gwnaethom ystyried y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r alldro gwirioneddol, sydd o reidrwydd yn cynnwys meysydd amcangyfrifon sy'n weddill. Yn y meysydd hyn, aethom ati i werthuso'r sail dros amcangyfrif CThEM gan gynnwys tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw, daethom i'r casgliad fod alldro refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 wedi'i ddatgan yn deg (paragraffau 1.2 i 1.16).

### **9 Mae CThEM wedi amcangyfrif mai £2,110 miliwn yw refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21.**

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £69 miliwn (3.4%) o gymharu ag alldro 2019-20. Er gwaethaf effaith y cyfyngiadau a osodwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn sgil COVID-19 ar yr economi a gweithgarwch cydymffurfio CThEM, arhosodd refeniw treth incwm yn sefydlog am fod cynnydd mewn cyflogau yn gryfach nag a ragwelwyd. Mae CThEM yn disgwyl cyfrifo'r alldro treth incwm terfynol ar gyfer 2020-21 y gellir ei briodoli i Gymru yn 2022. Dim ond at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol y mae'r amcangyfrif a lunnir gan CThEM, ac nid yw'n effeithio ar swm y refeniw a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw (paragraffau 1.17 i 1.21).

### **10 Mae effaith COVID-19 ar yr economi a threthdalwyr unigol yn cynyddu lefel yr ansicrwydd ynghylch amcangyfrif CThEM o refeniw incwm Cymru yn 2020-21.**

Nododd CThEM mai'r gallu i gasglu refeniw treth oedd prif ffynhonnell yr ansicrwydd ac ystyriwyd hyn fel rhan o'i addasiad calibradu arferol i'r alldro (?). Ystyriwn fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan CThEM i amcangyfrif effaith COVID-19 ar refeniw treth incwm Cymru yn 2020-21 yn rhesymol (paragraff 1.22).

Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru

### **11 Mae gan CThEM reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau yr asesi ac y cesglir treth incwm Cymru yn briodol ac y cydymffurfir â'r rheolau hynny.**

Mae ein gwaith ar faterion sy'n ymwneud â threth incwm Cymru yn adeiladu ar ein hasesiad ehangach o reolau a gweithdrefnau CThEM, a gwblheir fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o CThEM. Fel rhan o'r archwiliad hwnnw, daethom i'r casgliad bod CThEM wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol (paragraffau 2.2 i 2.12).

**12 Yr her allweddol o hyd wrth weinyddu'r system yw cynnal cofnod cywir a chyflawn o gyfeiriadau trethdalwyr Cymreig er mwyn pennu preswyliaeth yn gywir.**

Mae CThEM yn dibynnu ar drethdalwyr yn ei hysbysu am newid cyfeiriad, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Gwelsom fod cynnydd wedi bod yn nifer y codau post coll yng Nghymru a nodwyd drwy waith glanhau cyfeiriadau CThEM, sef 30,473 o gymharu â 17,371 pan gyflwynwyd ein hadroddiad diwethaf. Mae hyn yn dal i gynrychioli cyfran fach (tua 2%) o'r boblogaeth gyffredinol o drethdalwyr, ac mae CThEM wedi ymchwilio i'r holl achosion a nodwyd lle roedd unigolion naill ai'n gyflogedig neu'n derbyn pensiwn ac wedi diweddarau'r manylion hynny (paragraffau 2.13 i 2.21).

**13 Mae asesiadau CThEM yn parhau i nodi bod y risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â threth incwm Cymru yn isel am nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau treth Cymru a chyfraddau treth yng ngweddill y DU.** Yn 2020-21, lluniodd CThEM Ddarlun Strategol o Risg i Gymru. Ym marn CThEM, y prif feysydd o risg i dreth incwm Cymru yw risgiau i gydymffurfiaeth yr eir i'r afael â nhw ar lefel y DU gyfan. Ni nodwyd unrhyw risgiau yn y Darlun Strategol o Risg sy'n benodol i Gymru (paragraffau 2.24 a 2.25).

**14 Gwnaeth CThEM gyfrifo enillion cydymffurfio o £100 miliwn yn ymwneud â Chymru ar gyfer 2019-20, y data diweddaraf sydd ar gael.** Mae CThEM yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio: ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae wedi ei gynhyrchu ym marn CThEM, a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Mae CThEM hefyd yn amcangyfrif mai cyfran Cymru o golledion net oedd £280 miliwn. Cyfrifir y ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfran o ffigur y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru i feintio'r risgiau. Nid yw CThEM yn ystyried amrywiadau daearyddol yn lefel y risgiau i gydymffurfiaeth, na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU (paragraff 2.26).

**15 Ychydig iawn o ddata perfformiad sydd gan CThEM ar ei weithgareddau cydymffurfio yng Nghymru.** Yn wahanol i'w system treth incwm, sy'n nodi trigolion Cymreig, ni all system gydymffurfiaeth CThEM nodi pobl sy'n byw yng Nghymru yn hawdd. Felly, ni all CThEM olrhain a monitro gweithgarwch cydymffurfiaeth yng Nghymru yn hawdd ac mae hyn yn effeithio ar ei allu i gasglu data perfformiad ynghylch y graddau y ceir diffyg cydymffurfiaeth yng Nghymru (paragraff 2.28).

**16 Mae COVID-19 wedi parhau i effeithio ar weithgareddau cydymffurfiaeth a rheoli dyledion CThEM.** Ledled y DU, roedd 29% yn llai o achosion cydymffurfiaeth sifil ar agor a 26% yn llai o achosion wedi cau yn 2020-21 o gymharu â 2019-20, sy'n lleihau lefel y derbyniadau treth y mae CThEM wedi'u casglu drwy ei weithgareddau cydymffurfiaeth. Canfu ein hadroddiad diweddar *Managing tax debt through the pandemic* fod y cydbwysedd dyled ar gyfer treth incwm ledled y DU wedi cynyddu o £11 biliwn ar ddiwedd 2019-20 i fwy nag £16 biliwn ar ddiwedd 2020-21. Nid oes dadansoddiad o ddyledion treth incwm y gellir ei briodoli i Gymru ar gael ar hyn o bryd (paragraffau 2.29 i 2.32).

## Costau

**17 Yn 2020-21, aeth CThEM i gostau o £0.7 miliwn wrth weithredu a gweinyddu treth incwm Cymru ac ailgododd dâl am hynny ar Lywodraeth Cymru.** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEM yn amcangyfrif costau gweithredu, casglu a gweinyddu treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru. Roedd y costau yn 2020-21 yn is nag yn 2019-20, yn bennaf am fod y costau a oedd yn gysylltiedig â rhoi Prosiect Treth Incwm Cymru ar waith wedi gostwng £1.2 miliwn. Yn 2019-20, ailgododd CThEM gostau o £2 filiwn, yn cynnwys £1.4 miliwn o gostau rhoi ar waith a £0.6 miliwn o gostau gweithredu (paragraffau 3.4 a 3.5, a Ffigur 8).

# Rhan Un

## Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig

**1.1** Mae Rhan Un o'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfrifiad Cyllid a Thollau EM (CThEM) o'r alldro refeniw terfynol ar gyfer treth incwm Cymru yn 2019-20 a'i amcangyfrif dros dro o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn cynnwys:

- ein hasesiad o gyfrifiad CThEM o alldro treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20, yn cynnwys cyfyngiadau data a dyfarniadau CThEM mewn meysydd lle y ceir ansicrwydd;
- ein barn ar amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21 a nodweddion a chyfyngiadau methodoleg CThEM.

### **Alldro terfynol treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20**

**1.2** Cyfrifiad CThEM o'r alldro ar gyfer refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 yw £2,041 miliwn (**Ffigur 2** drosodd). Mae CThEM yn defnyddio sawl elfen i gyfrifo'r ffigur alldro terfynol, a chaiff yr elfennau hynny eu cyfuno i nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20. Caiff pob elfen ei chyfrifo gan ddefnyddio un ffynhonnell neu fwy er mwyn nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru. Amcangyfrif blaenorol CThEM o dreth incwm Cymru ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, oedd £2,008 miliwn, sy'n golygu bod yr alldro gwirioneddol £33 miliwn (1.6%) yn uwch na'r swm amcangyfrifedig.

**1.3** Mae'r cyfrifiad alldro yn seiliedig yn bennaf ar atebolrwydd treth sefydledig, rhyw £2,100 miliwn, lle mae CThEM wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Caiff yr atebolrwydd sefydledig ei gyfrifo o'r data ar atebolrwydd treth terfynol yn y systemau treth incwm Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesu.

**Ffigur 2**

## Cyfrifiad Cyllid a Thollau EM (CThEM) o alldro refeniw treth incwm Cymru 2019-20

Mae'r mwyafrif o'r alldro yn seiliedig ar atebolrwydd sefydledig ac mae cyfran fach wedi'i hamcangyfrif gan CThEM

	Symiau wedi'u seilio ar atebolrwydd trethdalwyr sefydledig	Symiau wedi'u seilio ar atebolrwydd sefydledig ac addasiadau	Cyfanswm
	(£m)	(£m)	(£m)
Atebolrwydd sefydledig Hunanasesu <sup>1</sup>	633	(12)	620
Atebolrwydd sefydledig TWE <sup>1</sup>	1,467	(6)	1,461
Atebolrwydd pellach amcangyfrifedig <sup>2</sup>	-	45	45
Didyniadau o refeniw <sup>3</sup>	-	(85)	(85)
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,100</b>	<b>(58)</b>	<b>2,041</b>

**Nodiadau**

- 1 Mae atebolrwydd treth sefydledig Hunanasesu a Thalu Wrth Ennill (TWE) wedi'u seilio'n bennaf ar ddata atebolrwydd treth a ddelir gan CThEM, er bod rhai symiau wedi'u seilio ar amcangyfrifon hefyd.
- 2 Dyma amcangyfrif CThEM o atebolrwydd treth TWE nad yw wedi'i gadarnhau eto a lle y disgwylir atebolrwydd treth o ffurflenni Hunanasesu neu weithgarwch cydymffurfio yn y dyfodol.
- 3 Mae didyniadau o refeniw yn cynnwys rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn a Chymorth Rhodd.
- 4 Nid yw'r symiau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21*, HC 696, Tachwedd 2021; Cyllid a Thollau EM, *Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru: 2019 i 2020*, Gorffennaf 2021; a dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EM

**1.4** Gwneir addasiadau neu amcangyfrifon lle nad yw'r dreth sy'n ddyledus wedi'i chadarnhau eto, neu lle mae'n rhaid i CThEM amcangyfrif cyfran Cymru o symiau na ellir eu casglu neu ryddhad treth. Y gostyngiad mewn alldro treth incwm Cymru a ddeilliodd o'r addasiadau hyn oedd £58 miliwn (net) (Ffigur 2). Mewn rhai rhannau o'r cyfrifiad, nid oes data digon manwl ar gael i nodi atebolrwydd treth incwm, rhyddhad treth nac addasiadau eraill sy'n ymwneud â threthdalwyr unigol. Aeth CThEM ati i amcangyfrif cyfran Cymru o'r symiau hyn drwy ddefnyddio data eraill a oedd ar gael, fel data ar y boblogaeth ac incwm, er mwyn nodi'r cydbwysedd rhwng Cymru a gweddill y DU.

**1.5** Trafodwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo alldro treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 gan CThEM a Llywodraeth Cymru ym Mwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Mai 2021 a derbyniwyd cytundeb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr un mis.

**1.6** Gwnaethom archwilio'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r alldro, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhai o'r meysydd amcangyfrifon sy'n weddill. Yn y meysydd hyn, gwnaethom werthuso'r sail dros amcangyfrif CThEM gan gynnwys tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Yn seiliedig ar ein gweithdrefnau, daethom i'r casgliad bod alldro refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 wedi'i ddatgan yn deg. Disgrifir elfennau allweddol o'r modd y cyfrifwyd yr alldro yn fanylach isod.

#### Atebolrwydd sefydledig Hunanasesu

**1.7** Mae'r atebolrwydd sefydledig Hunanasesu o £633 miliwn yn cynrychioli'r cyfrifiad o'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr Hunanasesu Cymreig yn 2019-20. Mae'r cyfrifiad o atebolrwydd Hunanasesu yn seiliedig yn bennaf ar ddata trethdalwyr Cymreig o systemau CThEM ond caiff rhai balansau eraill eu dosrannu hefyd.

**1.8** Mae CThEM yn nodi trethdalwyr Cymreig drwy ddefnyddio 'fflag' yn ei system 'Amgylchedd Cyfrifiadurol ar gyfer Hunanasesu'. Gall nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru drwy gael gafael ar gofnodion trethdalwyr Cymreig o'r system. Mae CThEM wedi gwneud mân addasiadau hefyd er mwyn dosrannu cyfran Cymru o falansau Hunanasesu perthnasol eraill lle nad oes data penodol ar gael.<sup>1</sup>

#### Atebolrwydd sefydledig TWE

**1.9** Mae atebolrwydd sefydledig TWE, sef £1,467 miliwn, yn cynrychioli'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr TWE Cymreig yn 2019-20. Er bod y mwyafrif o atebolrwydd TWE yn seiliedig ar ddata trethdalwyr Cymreig a geir o systemau CThEM, mae angen dosrannu elfennau eraill llai o faint hefyd.

**1.10** O dan TWE, mae cyflogwyr yn cyflwyno data misol i CThEM ar yr enillion a'r didyniadau treth a wneir ar gyfer eu cyflogeion a chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi ar system Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE CThEM. Mae CThEM yn nodi trethdalwyr Cymreig ar y system drwy ddefnyddio dangosydd preswyllo sy'n seiliedig ar wybodaeth am god post y trethdalwr. Drwy ddefnyddio cofnodion trethdalwyr Cymreig o'r system hon, gall CThEM nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru. Mae CThEM yn didynnu amcangyfrif o gyfran Cymru o ryddhad treth a roddir yn erbyn atebolrwydd TWE.

<sup>1</sup> Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o £3 miliwn o atebolrwydd ac asesiadau a gofnodwyd â llaw, nad ydynt yn nodi'r ffordd y mae'r atebolrwydd wedi'i rannu rhwng trethi. Mae hefyd yn cynnwys cofnodion sensitif, nad yw CThEM yn eu defnyddio i gyfrifo cyfran Cymru o dreth incwm. Amcangyfrifwyd hefyd fod £15 miliwn wedi'i ddiynnu ar gyfer cyfran Cymru o ryddhad treth drwy Hunanasesu.

**1.11** Gwneir addasiadau er mwyn dosrannu'r dreth a gesglir gan gyflogwyr o dan gytundebau setlo TWE.<sup>2</sup> Cyfran Cymru a gyfrifwyd ar gyfer 2019-20 oedd £4.2 miliwn. Gan fod atebolrwydd i dalu treth yn cael ei setlo drwy un taliad a wneir gan y cyflogwr, ni chaiff manylion trethdalwyr unigol eu cofnodi ac felly mae CThEM yn dadansoddi cyflwyniadau'r cyflogwr er mwyn pennu cyfran Cymru o refeniw cytundeb setlo ledled y DU. Ni dderbyniwyd pob ffurflen cytundeb setlo TWE gan gyflogwyr yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig oherwydd COVID-19. Amcangyfrifodd CThEM werth y cytundebau a oedd yn ddyledus yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol a'r cytundebau sydd eisoes ar waith gyda chyflogwyr.

### Atebolrwydd pellach a amcangyfrifir

**1.12** Caiff y rhan fwyaf o'r atebolrwydd Hunanasesu ar gyfer 2019-20 ei sefydlu cyn cyfrifo'r alldro. Serch hynny, mae CThEM yn gwybod o flynyddoedd blaenorol y bydd atebolrwydd treth Hunanasesu yn parhau i gael ei sefydlu a'i gasglu am hyd at chwe blynedd yn ddiweddarach. Mae hyn oherwydd bod CThEM yn parhau i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan drethdalwyr a thrwy ei weithgarwch cydymffurfio. Caiff yr atebolrwydd ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer yr elfennau hyn ei gyfrifo yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol, a phennir gwerth o £43 miliwn iddo yn alldro 2019-20. Gwneir addasiad amcangyfrifedig o £1.5 miliwn hefyd mewn perthynas ag atebolrwydd TWE pellach nad yw wedi'i bennu eto, er enghraifft lle nad yw cyfansymiau diwedd blwyddyn neu wybodaeth am fuddion mewn da a dderbyniwyd gan y trethdalwr yn hysbys eto.

### Didyniadau o refeniw

**1.13** Mae CThEM yn gwneud cyfres o ddidyniadau o'r refeniw alldro, gan gydnabod na chaiff atebolrwydd pob trethdalwr ei gasglu mewn gwirionedd. Mae'n defnyddio gwybodaeth hanesyddol i gyfrifo'r didyniadau hyn ac yn dosrannu swm ar gyfer trethdalwyr Cymreig.

**1.14** Ni chaiff rhywfaint o atebolrwydd treth incwm TWE a Hunanasesu byth eu setlo gan nad yw cyflogwyr neu drethdalwyr yn talu'r symiau llawn sy'n ddyledus. Mae CThEM wedi dadansoddi data hanesyddol ar gyfer y DU gyfan er mwyn nodi patrymau o atebolrwydd heb ei gasglu ac yna wedi dosrannu swm sy'n gysylltiedig â threthdalwyr Cymreig. Y swm a gyfrifwyd ar gyfer 2019-20 oedd £21 miliwn.

<sup>2</sup> Mae cytundeb setlo TWE yn caniatáu i gyflogwyr wneud un taliad blynyddol i gwmpasu'r holl dreth sy'n ddyledus ar fân dreuliau neu fuddiannau, neu dreuliau neu fuddiannau afreolaidd neu annichonol, ar gyfer cyflogwyr yn y cynllun.



**1.15** Gwneir didyniadau pellach ar gyfer cyfraniadau pensiwn a Chymorth Rhodd, y mae rhyddhad treth incwm yn gymwys i'r ddau ohonynt ar gyfradd treth incwm ymylol y trethdalwr. Mae gweinyddwyr y cynllun pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEM ar ran aelodau eu cynllun, ac mae elusennau yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEM ar ran eu rhoddwyr. Cyfrifodd CThEM y ddau ddidyniad drwy ddefnyddio data hanesyddol i amcangyfrif cyfran Cymru o bob rhyddhad treth a hawliwyd ledled y DU. Ar gyfer 2019-20, cyfrifwyd mai'r didyniad ar gyfer Cymorth Rhodd oedd £27 miliwn a'r didyniad ar gyfer cyfraniadau pensiwn oedd £38 miliwn.

### Effaith COVID-19 ar yr alldro referniw

**1.16** Gwnaeth CThEM waith penodol i ystyried effaith COVID-19 ar yr alldro ar gyfer 2019-20, a nododd mai'r gallu i gasglu referniw treth oedd y brif risg. Cynhaliodd CThEM lai o weithgarwch cydymffurfio yn 2020-21 ac felly cofnodwyd llai o gollodion. Nid yw o'r farn bod hyn yn gynrychioliadol o'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Rhoddodd CThEM gyfrif am hyn wrth gyfrifo'r alldro drwy ddefnyddio data a gasglwyd yn 2019-20 yn hytrach nag yn 2020-21 oherwydd tybiwyd y byddai'r data hynny yn rhoi syniad gwell o gyfraddau casglu tebygol yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth am effaith COVID-19 ar weithgareddau cydymffurfio CThEM ym mharagraffau 2.29 i 2.32.

### Amcangyfrif treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21


**1.17** Mae CThEM yn amcangyfrif y bydd yn casglu £2,110 filiwn o referniw treth incwm Cymru mewn perthynas â blwyddyn 2020-21.<sup>3</sup> Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £69 miliwn (3.4%) yn erbyn alldro 2019-20. Er gwaethaf effaith y cyfyngiadau a osodwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn sgil COVID-19, perfformiodd referniw treth incwm yng Nghymru a gweddill y DU yn well na'r disgwyl am fod cynnydd mewn cyflogau yn gryfach nag a ragwelwyd. Disgwylir i'r alldro terfynol ar gyfer blwyddyn 2020-21 gael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM ar gyfer 2021-22. Dim ond at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol y llunnir amcangyfrif CThEM, ac nid yw'n effeithio ar swm y referniw a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

**1.18** Mae methodoleg CThEM ar gyfer amcangyfrif referniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar ddata trethdalwyr o 2018-19, a dynnwyd o'i Arolwg o Incwm Personol. Pennir cyfran ganrannol Cymru o atebolrwydd treth incwm cyffredinol y DU drwy ddadansoddi'r data mewn model sy'n ailadrodd system treth incwm y DU, sef y Model Treth Personol. Caiff y data eu haddasu i adlewyrchu newidiadau demograffig a pholisi y disgwyliwyd iddynt ddigwydd rhwng 2018-19 a 2020-21 neu y gwyddys eu bod wedi digwydd. Yna caiff y gyfran ei chymhwyso at gyfanswm atebolrwydd treth y DU er mwyn llunio amcangyfrif o referniw ar gyfer treth incwm Cymru (**Ffigur 3** drosodd).

3 Cyllid a Thollau EM, *Annual Report and Accounts 2020-21*, HC 696, Hydref 2021.

### Ffigur 3 Dull o gyfrifo'r amcangyfrif o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21

Mae'r amcangyfrif o refeniw yn dibynnu ar ddata sampl a dosraniad o amcangyfrifon ledled y DU i gyfrifo cyfran Cymru o refeniw treth incwm



#### Nodiadau

- 1 Mae Arolwg blynyddol CThEM o Incwm Personol yn sampl o ddata trethdalwyr y DU o systemau treth Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesu. Mae'r Model Treth Personol yn rhoi amcanestyniad o'r canlyniad ar gyfer atebolrwydd treth incwm yn 2020-21, gan addasu ar gyfer cyfraddau gwahanol twf poblogaeth a ffactorau economaidd, megis codiad cyflog, i gyfrifo cyfran Cymru.
- 2 Incwm nad yw'n gynnwys na difendendau yn unig.
- 3 Daw'r data hunanasesu o Fodel Hunanasesu CThEM.
- 4 Cymhwysodd CThEM gyfran Cymru a gyfrifwyd yn flaenorol at gyfanswm yr atebolrwydd treth incwm cyn Cymorth Rhodd, ac yna tynnodd y gyfran amcangyfrifedig o Gymorth Rhodd a oedd yn berthnasol i Gymru ynghyd ag addasiadau eraill llawer llai o faint.
- 5 Cyfrifir yr addasiad calibradu ar gyfer Cymru ar sail bandiau. O'i gymharu â'r alldro, cyfrifwyd mai 2.7% oedd yr addasiad ar gyfer y gyfradd syfhaenol. Cyfrifwyd mai'r addasiad ar gyfer y gyfradd ychwanegol oedd 3.6% a'r addasiad ar gyfer y gyfradd uwch oedd 9.4%. O edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, mae'r addasiadau o fand i fand yn arwain at wahaniaeth o 3.0% rhwng alldro 2019-20 a'r amcangyfrif diwygiedig.

**1.19** Yn unol â'r dull o ymdrin â threth incwm yn yr Alban, gwnaeth CThEM addasiad 'calibradu' i'r amcangyfrif o refeniw Cymru oherwydd, yn hanesyddol, mae ei fethodoleg wedi arwain at alldro amcangyfrifedig uwch na'r alldro gwirioneddol. Gwnaeth CThEM yr addasiad hwn drwy gymharu alldro 2019-20 ag amcangyfrif diwygiedig o refeniw 2019-20 gan ddefnyddio'r un fethodoleg ond gyda'r tybiaethau a'r data diweddaraf. Yn sgil yr addasiad calibradu, gwelwyd gostyngiad o £0.1 biliwn (3.0%) yn yr amcangyfrif dros dro ar gyfer 2020-21 (gweler Ffigur 3).

**1.20** Mae'r addasiad calibradu yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau canlynol:

- Mae'n tybio y byddai'r goramcangyfrif ar gyfer 2020-21 yn gyson â'r goramcangyfrif yn 2019-20 o ran canran.
- Mae diffyg dealltwriaeth ynghylch y rhesymau dros y goramcangyfrif yn 2019-20 a gallai unrhyw ffactorau economaidd-gymdeithasol a gyfrannodd ato fod yn wahanol yn 2020-21.

**1.21** Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod dull gweithredu CThEM yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau a ddisgrifiwyd gennym mewn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â'r fethodoleg a ddefnyddir gan CThEM i amcangyfrif refeniw treth incwm Cymru yn berthnasol o hyd ar gyfer 2020-21:

- Mae defnyddio data sampl yn creu ansicrwydd samplu yn yr amcangyfrif o refeniw, y cyfrifir rhan Cymru ohono fel canran.
- Mae'r fethodoleg yn cyfuno cyfrifiad atebolrwydd TWE a Hunanasesu ar gyfer y DU fel nad yw'r swm a ddosrennir i Gymru yn adlewyrchu cyfrannau gwahanol pob math o drethdalwr rhwng Cymru a gweddill y DU.
- Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer TWE yn cynnwys pob math o incwm ac nid ydynt yn eithrio treth o incwm cynilion nac incwm difidendau.
- Mae'n rhaid gwneud tybiaethau ynghylch maint a gwerth y tandaliadau a'r gordaliadau sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd TWE.

**1.22** Mae effaith COVID-19 ar yr economi a threthdalwyr unigol yn cynyddu lefel yr ansicrwydd ynghylch amcangyfrif CThEM o refeniw treth incwm Cymru. Nododd CThEM mai'r gallu i gasglu refeniw treth oedd prif ffynhonnell yr ansicrwydd ac ystyriodd hyn fel rhan o'i addasiad calibradu arferol i'r alldro. Ystyriwn fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan CThEM yn rhesymol.

# Rhan Dau

## Gweinyddu treth incwm Cymru

**2.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Prosesau allweddol Cyllid a Thollau EM (CThEM) wrth weinyddu'r system treth incwm a'n dull o gael sicrwydd arnynt (paragraffau 2.5 i 2.12);
- Gweithdrefnau CThEM i nodi a chynnal cofnod cyflawn a chywir o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig (paragraffau 2.13 i 2.23);
- Gweithgarwch CThEM i nodi risgiau i gydymffurfiaeth ac ymateb iddynt (paragraffau 2.24 i 2.33).

**2.2** Mae CThEM yn defnyddio'r un systemau i weinyddu treth incwm p'un a gaiff ei derbyn gan drethdalwr yng Nghymru neu yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, mae CThEM yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau ychwanegol i Gymru hefyd, ac rydym yn asesu'r rhain isod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldeb CThEM i weinyddu treth incwm i drethdalwyr Cymreig yn yr un ffordd â'r gwasanaeth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

**2.3** O dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921, mae'n rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw systemau CThEM yn ddigonol i asesu a chasglu treth yn y DU, gan gynnwys treth incwm. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad (yr Adroddiad Safonol), ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM, sy'n nodi casgliadau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn hyn o beth. Yn ein Hadroddiad Safonol ar gyfer 2020-21, daethom i'r casgliad bod CThEM wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu referniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol.

**2.4** I gefnogi casgliadau'r adroddiad hwn, rydym yn ymestyn ein profion ledled y DU i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau a welir yn sgil datganoli. Rydym hefyd yn cynnal gweithdrefnau penodol yn edrych ar weithgareddau glanhau cyfeiriadau a chydymffurfiaeth â threth ehangach CThEM. Mae'r gweithgareddau hyn yn llywio ein hasesiad o gyflawnder a chywirdeb amcangyfrifon CThEM o dreth incwm Cymru. Wrth ddod i'n casgliadau, rydym yn archwilio sawl elfen o weinyddiaeth dreth ddatganoledig, megis y gwaith parhaus o gadw cofnodion trethdalwyr Cymreig, a'r ffordd y nodwyd risgiau i gydymffurfiaeth â threthi datganoledig ac yr ymatebwyd iddynt.

## Y system treth incwm

**2.5** Mae system CThEM ar gyfer casglu treth incwm yn gyson ledled y DU. Yn dibynnu ar y math o incwm y mae unigolyn yn ei gael, caiff treth incwm ei hasesu a'i chasglu drwy ddiidyniadau gan y cyflogwr o enillion o dan Dalu wrth Ennill (TWE), drwy ffurflen Hunanasesu a gyflwynir gan y trethdalwr, neu drwy'r ddau.

**2.6** Mae i'r prosesau TWE a Hunanasesu egwyddorion cyffredin, er eu bod yn defnyddio systemau TG a ffynonellau data gwahanol er mwyn asesu a chasglu treth. Mae **Ffigur 4** drosodd yn nodi'r egwyddorion hyn ac yn disgrifio'r prif brosesau ar gyfer pob ffrwd treth incwm.

## Sicrwydd ynghylch prosesu treth incwm

**2.7** Mae ein rhaglen flynyddol o waith archwilio mewn perthynas â CThEM yn cynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch rheolaethau prosesu treth allweddol. Caiff y rheolaethau hyn eu rhannu'n fras yn ddau gategori:


- rheolaethau system awtomataidd o ran ymdrin â data, eu storio a'u prosesu;
- rheolaethau busnes allweddol sy'n cynnwys lefel uchel o awtomatiaeth ond sy'n gymhleth. Yn dilyn diweddariadau blynyddol i reolau busnes er mwyn adlewyrchu cyfraddau treth, trothwyon a lwfansau sy'n newid ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae CThEM yn cwblhau sawl cam o'r profion sicrwydd ar reolaethau busnes allweddol er mwyn cadarnhau gweithrediad y system. Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn gwerthuso cwmpas y profion hyn ac yn ail-wneud elfennau o'r gwaith er mwyn cadarnhau casgliadau CThEM. Mae'r prosesau allweddol yn TWE yn cynnwys:
  - cysoni trethdalwyr TWE bob blwyddyn er mwyn cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus ar enillion a chyfrifo unrhyw achosion o ordalu neu dandalu treth yn seiliedig ar y wlad y preswylir ynddi;
  - rhoi codau treth ar gyfer trethdalwyr TWE bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am breswyliaeth er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn didynnu treth o dan reolau treth y wlad gywir.

**2.8** Cymhwysir prosesau tebyg at bob ffurflen Hunanasesu unigol a dderbynnir gan CThEM. Mae trethdalwyr Hunanasesu yn gwneud taliadau ar y cyfrif ac yn cyfrifo eu hatebolrwydd treth eu hunain ar ddiwedd y flwyddyn gan ddefnyddio cyfrifiannell CThEM ar y ffurflen dreth a gyflwynir.

**Ffigur 4**

**System treth incwm y DU**

**Mae'r prosesau Talu wrth Ennill (TWE) a Hunanasesu yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran asesu a chasglu treth incwm**



**Nodiadau**

- 1 Nid yw prosesau TWE a Hunanasesu yn digwydd ar yr un pryd. Caiff TWE ei brosesu yn ystod y flwyddyn dreth a'i gysoni ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Ni chaff ffurflenni Hunanasesu eu cyflwyno tan fis Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.
- 2 Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae proses gysoni TWE yn cyfrifo'r atebolrwydd treth incwm ar gyfer pob trethdalwr gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael. Caiff yr atebolrwydd a gyfrifwyd ei gymharu â'r symiau a ddidynnwyd yn eu tarddiad neu a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr yn uniongyrchol i bennu p'un a gasglwyd y swm cywir o dreth.

## Treth incwm ddatganoledig

**2.9** Y brif ffordd y mae'r broses o weinyddu trethi datganoledig yn wahanol i brosesau'r DU yw'r rheolau busnes y mae'r system yn eu cymhwyso wrth gwblhau atebolrwydd treth a'r cyfrifiadau cod treth. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i reolau'r system ers ein hadroddiad diwethaf a oedd yn cwmpasu 2019-20. Mae'r rheolau a gymhwysir at drethdalwyr Cymreig fel a ganlyn:

- mae'r system yn gwirio statws preswyllo'r unigolyn ac yn cymhwyso rhagddodiad cod treth 'C' pan nodir ei fod yn preswyllo yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr gasglu treth o dan gyfraddau treth Cymru. Lle nad yw unigolyn yn preswyllo yng Nghymru mwyach, tynnir y rhagddodiad 'C';
- lle nodir bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig, cymhwysir cyfraddau a bandiau treth Cymru at yr incwm a nodwyd wrth gyfrifo'r atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol;
- os nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig a'i fod wedi'i gofrestru ar gynllun TWE, mae'r system yn defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru i gyfrifo cod treth newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

**2.10** Mae ffurflenni Hunanasesu yn cynnwys blwch gwirio er mwyn i'r drethdalwr nodi a oeddent yn preswyllo yng Nghymru. Os yw'r hyn a nodir yn wahanol i gofnodion CThEM, bydd CThEM yn defnyddio'r cyfeiriad a ddelir ganddo i gyfrifo atebolrwydd treth y drethdalwr. Caiff drethdalwyr eu hysbysu am yr anghysondeb a gofynnir iddynt ddiweddarau eu cyfeiriad os bydd angen. Mae **Ffigur 5** drosodd yn dangos lle mae gwahaniaethu o'r fath yn digwydd yn y system treth incwm.


## Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn

**2.11** Mae'n rhaid i drethdalwyr Cymreig gael eu hadnabod o fewn cynlluniau pensiwn fel y caiff rhyddhad treth ei ddyrannu'n gywir. Mae gweinyddwyr pensiwn yn hawlio rhyddhad treth yn y tarddiad ar ran eu haelodau ac yn ychwanegu hyn at gyfraniadau eu haelodau. Mae system Rhyddhad yn y Tarddiad CThEM yn rhoi cadarnhad awtomatig o statws preswyllo aelodau o gynllun pensiwn er mwyn sicrhau y cymhwysir y rhyddhad cywir yn y tarddiad. Mae'n cymhwyso rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn ar y gyfradd sylfaenol o 20% i bob drethdalwr. Gall drethdalwyr Cymreig sy'n talu treth ar gyfradd uwch nag 20% hawlio'r rhyddhad treth sy'n weddill drwy ffurflen Hunanasesu neu drwy gysylltu â CThEM.

**Ffigur 5**

Gwahaniaethau yn y system treth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymreig

**Mae'r rheolau busnes wedi'u llunio i brosesu treth incwm gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r trothwyon sy'n gymwys i statws preswyllo trethdalwr**



Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EM

**2.12** Er mwyn gweinyddu rhyddhad yn ei darddiad, mae CThem yn gofyn i bob darparwr pensiwn gyflwyno adroddiad blynyddol, gan restru cyfraniadau ei aelodau yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Mae systemau CThem yn olrhain aelodau'r cynllun yn awtomatig ac yn eu paru â chyfeiriadau a ddelir i nodi trethdalwyr Cymreig. Yna caiff Adroddiad ar Hysbysiad Blynyddol o Breswyliaeth ei anfon at bob darparwr pensiwn. Cadarnhaodd CThem statws preswyllo ar gyfer 92% o aelodau cynlluniau pensiwn yng Nghymru a'r Alban yn dilyn blwyddyn dreth 2019-20 ac mae'n amcangyfrif dros dro bod 94% wedi cael eu cadarnhau yn dilyn blwyddyn dreth 2020-21. Yn dilyn blwyddyn dreth 2019-20, cyhoeddodd CThem Adroddiad ar Hysbysiad Blynyddol o Breswyliaeth i ddarparwyr cynlluniau pensiwn ym mis Ionawr 2021.



## Y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

**2.13** Yn ôl cyfrifiad CThEM, roedd 1.3 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2019-20.<sup>4</sup> Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sy'n atebol am dalu treth ac y mae ei brif breswylfa yn ystod y flwyddyn dreth yng Nghymru. Tybir bod Seneddwyr Cymru hefyd yn drethdalwyr Cymreig. Roedd trethdalwyr cyfradd uwch ac uchaf yn cyfrif am ychydig dros 7% o'r boblogaeth a oedd yn talu treth incwm Cymru yn 2019-20 ond roeddent yn cyfrannu tua 40% o'r dreth incwm a dalwyd. Roedd trethdalwyr cyfradd sylfaenol yn cyfrif am 93% o'r boblogaeth ac yn darparu 60% o'r dreth a dalwyd (**Ffigur 6** drosodd).

**2.14** Cynnal cofnodion cywir a chyflawn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig yw'r brif her o hyd i CThEM wrth weinyddu treth incwm Cymru. Mae gan CThEM nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer newidiadau mewn cyfeiriadau ond mae'n dibynnu'n bennaf ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau o'r fath yn brydlon, er nad oes gofyniad cyfreithiol i drethdalwyr wneud hynny. Mae CThEM hefyd yn cael gwybodaeth am gyfeiriadau o ffynonellau eraill megis cyflogwyr, er nad yw'n ofynnol i gyflogwyr roi diweddariadau pan fydd eu cyflogeion yn newid eu cyfeiriad.

**2.15** Mae'n rhaid i wybodaeth am gyfeiriadau fod yn gywir er mwyn sicrhau y caiff y swm cywir o dreth ei gasglu gan unigolion a'i ddyrannu i'r llywodraeth briodol. Mae gan CThEM sawl proses sicrwydd ar waith i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb y data cyfeiriadau a ddefnyddir ganddo i nodi trethdalwyr Cymreig (**Ffigur 7** ar dudalen 25).

## Sganiau codau post


**2.16** Mae CThEM yn sganio cofnodion trethdalwyr i nodi codau post sydd ar goll neu annilys a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswyllo anghywir. Yn ôl y sgan diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Medi 2020, roedd 30,473 o godau post ar goll. Cafodd 1,636 o'r rhain eu diweddarau. Mae hyn yn cymharu â 17,371 o godau post a oedd ar goll pan gyflwynwyd ein hadroddiad diwethaf. Cafodd 2,047 o'r codau post hynny eu diweddarau. Cafwyd cynnydd yn nifer y codau post a oedd ar goll o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae'r rhain yn dal i gynrychioli cyfran fach iawn (tua 2%) o'r boblogaeth sy'n talu treth incwm Cymru (1.3 miliwn). Mae CThEM yn ymchwilio i achosion a nodwyd lle roedd unigolion naill ai'n gyflogedig neu'n derbyn pensiwn ac yn eu diweddarau. Caiff achosion na chânt eu diweddarau eu nodi fel rhai segur gan nad oes unrhyw incwm y mae'n rhaid talu treth arno ar hyn o bryd.

4 Cyllid a Thollau EM, *Welsh Income Tax Outturn Statistics: 2019 to 2020*, Gorffennaf 2021.

### Ffigur 6

Cyfrannau talwyr treth incwm a threth incwm a dalwyd fesul band yng Nghymru, 2019-20

**Roedd trethdalwyr cyfradd uwch ac uchaf yn cyfrif am 7% o'r boblogaeth ond roeddent yn cyfrannu 40% o'r dreth incwm a dalwyd**



**Noder**

1 2019-20 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EM

**Ffigur 7**

## Sicrwydd ynghylch y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn cynnal sawl gweithgaredd sicrwydd i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb sylfaen drethu Cymru

Gweithgaredd sicrwydd	Diben	Canlyniadau
<b>Rheolaethau sy'n sicrhau bod preswyliaeth yng Nghymru yn cael ei phennu'n gywir gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddelir gan CThEM</b>		
Codau post newydd	Mae cymharu rhestr CThEM o godau post Cymru â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn sicrhau bod codau post yn gyfredol.	Derbynnir data ar godau post bob chwarter oddi wrth SYG. Ychwanegwyd 660 o godau post newydd yn 2020-21.
Glanhau cyfeiriadau	Sganiau o gofnodion trethdalwyr a ddelir gan CThEM i nodi codau post sydd ar goll neu annilys a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswyliaeth anghywir.	Nodwyd 30,473 o godau post a oedd ar goll drwy'r sganiau a gynhaliwyd ym mis Medi 2020. Cafodd 1,636 o'r achosion hyn eu diweddarau am fod ganddynt gofnod o gyflogaeth gyfredol neu bensiwn. Ni chafodd y cofnodion a oedd yn weddill eu diweddarau am nad oedd cyflogaeth wedi'i nodi.  Nododd CThEM 22,994 o godau post annilys hefyd a diweddarwyd 4,707 o gofnodion trethdalwyr a oedd yn nodi cyflogaeth gyfredol neu bensiwn. <sup>1</sup>
Codau post trawsffiniol	Mae systemau CThEM yn nodi newidiadau i gyfeiriadau pan fydd cyfeiriadau newydd mewn cod. post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae CThEM yn adolygu'r achosion hyn er mwyn sicrhau bod y statws preswyliaeth cywir yn cael ei bennu.	Mae'r broses hon wedi bod ar waith ers mis Hydref 2019. Yn 2020-21, adolygwyd 473 o achosion trawsffiniol, y cafodd 76 ohonynt eu diwygio ar ôl ymchwilio iddynt.
Statws preswyllo coll nas nodwyd	Sganiau i nodi cofnodion trethdalwyr Cymreig na chânt eu nodi fel cofnodion o'r fath yn y system.	Nododd sganiau a gynhaliwyd yn ystod 2020 1,031 o achosion, y cafodd pob un ohonynt eu diweddarau.
<b>Rheolaethau i fonitro gweithrediad Talu Wrth Ennill (TWE) gan gyflogwyr</b>		
Sganiau i gymharu codau treth	Cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â chofnod trethdalwyr CThEM, i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn cymhwyso cod treth gwahanol i CThEM.	Ym mis Mawrth 2021, nodwyd 47,818 o achosion lle nad oedd rhagddodiaid 'C' wedi cael eu cymhwyso'n gywir at godau treth. <sup>2</sup>
<b>Rheolaethau i nodi cyfeiriadau anghywir a ddelir gan CThEM</b>		
Cymharu data trydydd parti	Cymharu cofnodion cyfeiriadau trethdalwyr â ffynonellau data trydydd parti a ddelir gan CThEM i nodi achosion lle mae cofnodion CThEM yn anghyson â data trydydd parti.	Mae CThEM a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal yr ymarfer hwn bob dwy flynedd. Yn ystod yr ymarfer diweddaraf, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021, cymharwyd 2.9 miliwn o gofnodion cyfeiriadau.  Nododd CThEM 9,273 o gofnodion lle nad oedd y statws preswyllo a bennwyd o'r cyfeiriad a ddaliwyd gan CThEM yn cyfateb i'r statws preswyllo a awgrymwyd gan ddata trydydd parti. Ceir adroddiad pellach ar y canlyniadau yn ein hadroddiad ar gyfer 2021-22.
Unigolion gwerth net uchel	Mae CThEM yn cynnal gwiriadau a gweithdrefnau i adolygu symudiadau unigolion gwerth net uchel a sicrhau bod eu cyfeiriadau yn gyfredol.	

**Nodiadau**

- 1 Caiff codau post annilys a nodwyd eu cywiro neu eu gosod â llaw fel rhai Cymreig os na fydd yn bosibl pennu'r cod post cywir o'r cyfeiriad.
- 2 Daw'r ffigurau o ddadansoddiad CThEM o sganiau codau treth misol ac maent yn dangos nifer y codau treth lle na chafodd y rhagddodiaid 'C' Cymreig ei gymhwyso'n gywir, lle y byddai'r cod treth wedi bod yn gywir fel arall.

Ffynhonnell: Crynodeb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithgareddau Cyllid a Thollau EM

## Gweinyddu codau treth Cymru

**2.17** Os na fydd cyflogwr yn cymhwyso'r rhagddodiad 'C' at god treth cyflogai, bydd yn didynnu treth ar gyfradd y DU. Mae CThEM yn cysoni'r hyn y mae pob trethdalwr wedi'i dalu mewn treth yn erbyn yr hyn y cred y dylai fod wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Yna mae CThEM yn defnyddio'r wybodaeth derfynol hon a'r statws preswyllo a ddelir ar ei system i gyfrifo'r dreth y dylai pob trethdalwr ei thalu. Felly, nid effeithir ar yr alldro ar gyfer Cymru pan na fydd y rhagddodiad 'C' mewn cod treth unigolyn wedi ei weithredu'n gywir gan gyflogwr.

**2.18** Bob mis, mae CThEM yn cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â'i gofnod o drethdalwyr ei hun er mwyn nodi achosion lle mae cyflogwyr yn defnyddio cod treth gwahanol. Mae nifer yr achosion lle nad oedd y rhagddodiad C' cywir yn cael ei weithredu yn amrywio drwy'r flwyddyn. Ym mis Mai 2020, nododd CThEM 43,257 o gofnodion trethdalwyr Cymreig (3.3% o achosion) lle nad oedd cyflogwyr yn gweithredu cod treth â rhagddodiad 'C'. Ym mis Mawrth 2021, roedd 47,818 o achosion (2.6% o achosion). Mewn adroddiadau blaenorol, nodwyd nad oes gan CThEM darged ar gyfer pa mor isel y byddai'n rhaid i nifer y rhagddodiad 'C' sydd ar goll fod cyn y gallai dweud bod ei weithgarwch cydymffurfio wedi bod yn llwyddiannus.

**2.19** Pan fydd CThEM yn gweld nad yw cyflogwr yn defnyddio'r cod treth cywir, bydd yn anfon hysbysiad P6 yn gofyn iddo ddiweddarau cod treth cyflogai. Mae CThEM yn ymgymryd â gwaith i dargedu cyflogwyr sy'n gwneud gwallau cyson ac yn gweithio gyda nhw i roi'r cod treth cywir ar waith. Nid oedd CThEM yn gallu dweud wrthym faint o gyflogwyr sy'n defnyddio'r cod treth anghywir yn gyson.

## Ymarfer data trydydd parti

**2.20** Mae CThEM yn cymharu'r cofnodion sydd ganddo am gyfeiriadau trethdalwyr Cymreig â data trydydd parti er mwyn nodi gwahaniaethau. Y gymhariaeth hon yw prif ffynhonnell sicrwydd CThEM o ran y wybodaeth a ddelir ganddo am gyfeiriadau ac mae wedi cytuno'n flaenorol â Llywodraeth Cymru i gynnal yr ymarfer bob dwy flynedd. Yn ystod yr ymarfer diweddaraf, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021, cymharwyd 2.9 miliwn o gyfeiriadau yng Nghymru.

**2.21** Nododd CThEM 9,273 o gofnodion lle nad oedd y breswyliaeth a nodwyd o'r cyfeiriad a ddaliwyd gan CThEM yn cyfateb i'r breswyliaeth a awgrymwyd gan ddata trydydd parti. Anfonwyd llythyrau at bob un o'r trethdalwyr yr effeithiwyd arnynt yn gofyn iddynt gadarnhau eu cyfeiriad. Mae CThEM yn parhau i asesu canlyniad yr ymarfer trydydd parti a byddwn yn adrodd ar hyn yn fanylach yn ein hadroddiad ar gyfer 2021-22.

## Seneddwyr Cymru

**2.22** Tybir yn awtomatig fod seneddwyr Cymru yn drethdalwyr Cymreig mewn unrhyw flwyddyn dreth tra byddant yn eu swydd. Mae hyn yn gymwys i'r 60 o aelodau etholedig yn Senedd Cymru (ASau) a'r 40 o Aelodau Seneddol yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru.

**2.23** Ni chymhwysir rheolau busnes arferol wrth brosesu cofnodion ar gyfer seneddwyr Cymru. Arferai CThEM ddefnyddio proses â llaw i nodi'r cofnodion hyn a sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi fel trethdalwyr Cymreig ni waeth ble roeddent yn preswyllo. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr neu seneddwyr ddarparu'r wybodaeth ofynnol i CThEM yn flynyddol. Ym mis Awst 2020, cyflwynwyd newidiadau i'r system a gynlluniwyd i ddileu'r angen i ddiweddarau cofnodion Seneddwyr yn flynyddol. Dywedodd CThEM wrthym nad oedd wedi nodi unrhyw faterion mewn perthynas â threthi seneddwyr Cymru yn ystod 2020-21.

## Asesu risg a gwaith cynllunio o ran cydymffurfiaeth

**2.24** Mae CThEM yn cymhwyso'r un dull gweithredu cydymffurfiaeth i gasglu treth incwm yng Nghymru ag y mae'n ei gymhwyso yng ngweddill y DU. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnwys y canlynol:

- **hyrwyddo** cydymffurfiaeth drwy ddylunio prosesau i annog a helpu cwsmeriaid i gael pethau'n iawn y tro cyntaf;
- **atal** diffyg cydymffurfiaeth drwy ddyluniad prosesau a dealltwriaeth cwsmeriaid a chynnig cyfle i unioni camgymeriadau;
- **ymateb** i risgiau o ran cydymffurfiaeth, ymchwilio iddynt a'u hunioni gan ddefnyddio gweithgarwch wedi'i deilwra pan fydd angen ymyrryd.

**2.25** Fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Llywodraeth Cymru, mae CThEM yn llunio Darlun Strategol o Risg i Gymru yn flynyddol er mwyn asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n berthnasol i Gymru a chynllunio ar eu cyfer. Ar gyfer y Darlun Strategol o Risg i Gymru, mae CThEM yn ystyried y risgiau allweddol i gydymffurfiaeth ar lefel gyffredinol y DU ac yn cymhwyso gwerth er mwyn cynrychioli cyfran y risgiau hyn sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r gwerth hwn yn gyson â chyfran Cymru o dreth incwm y DU yn Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, nid yw CThEM wedi nodi unrhyw risgiau sylweddol sy'n benodol i Gymru ac mae'n ystyried bod y prif risgiau i dreth incwm Cymru yr un fath â'r rhai ar gyfer y DU gyfan. Ymhlith y risgiau hyn mae:

- osgoi trethi, lle mae unigolion neu fusnesau yn hepgor, yn celu neu'n camliwio gwybodaeth yn fwriadol er mwyn lleihau eu hatebolrwydd i dalu treth;
- yr economi gudd, lle na chaiff incwm trethadwy ei datgan neu lle y caiff incwm datganedig ei danddatgan yn fwriadol;
- osgoi trethi, lle y camfanteisir ar reolau treth er mwyn cael mantais treth nad oedd Senedd y DU erioed wedi'i bwriadu.

**2.26** Mae CThEM yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio, ei amcangyfrif o'r referniw ychwanegol y mae'n ystyried ei fod wedi'i gynhyrchu a'r colledion y mae wedi'u hatal. Amcangyfrif CThEM o'r enillion cydymffurfio ar gyfer y risgiau yn y Darlun Strategol o Risg sy'n berthnasol i Gymru yn 2019-20 oedd £100 miliwn. Amcangyfrifir hefyd mai cyfran Cymru o golledion net o'r risgiau hyn oedd £280 miliwn. Nid yw CThEM yn ystyried amrywiad daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio.

**2.27** Y bwlch treth yw'r gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid ei dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd. Nid yw CThEM yn nodi bwlch treth penodol i Gymru ar hyn o bryd. Mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nododd CThEM y byddai cyfrifo bwlch treth penodol i Gymru yn anodd am resymau methodolegol ac oherwydd lefel uchel yr ansicrwydd a fyddai'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r fath.<sup>5</sup>

**2.28** Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan CThEM am weithgarwch cydymffurfio penodol yr ymgemerir ag ef yng Nghymru. Dywedodd wrthym y gallai gwybodaeth am nifer yr achosion cydymffurfio sy'n weithredol gael ei chomisiynu ond byddai angen chwilio systemau gwybodaeth gwahanol. Yn wahanol i'r system treth incwm, a all nodi trigolion Cymreig, ni all system gydymffurfio CThEM nodi pobl sy'n byw yng Nghymru gan fod y systemau yn seiliedig ar risg yn hytrach nag unigolion. Felly, mae casglu data perfformiad defnyddiol ynghylch y graddau y ceir diffyg cydymffurfio yng Nghymru yn dasg heriol i CThEM.

### Effaith COVID-19 ar weithgarwch cydymffurfiaeth a rheoli dyledion CThEM

**2.29** Cafodd COVID-19 ac ymateb CThEM iddo effaith ar ei weithgarwch cydymffurfio craidd yn 2020-21 a bydd yn arwain at ostyngiad yn lefel y derbyniadau treth y mae CThEM wedi'u casglu drwy ei weithgareddau cydymffurfiaeth. Ledled y DU, roedd 29% yn llai o achosion cydymffurfiaeth sifil ar agor a 26% yn llai o achosion wedi cau yn 2020-21 o gymharu â 2019-20, yn rhannol oherwydd:

- roedd gallu CThEM i ymweld â'i gwsmeriaid yn gyfyngedig oherwydd bod angen i lawer o'i staff weithio o gartref, roedd cyfyngiadau teithio a chadw pellter cymdeithasol ar waith ac nid oedd llawer o fusnesau yn gweithredu;
- roedd rhai staff wedi cael eu hailneilltuo o waith cydymffurfiaeth i gefnogi mesurau eraill yn ymwneud â COVID-19 yn ystod y flwyddyn;
- roedd CThEM yn ymgymryd â'i weithgarwch cydymffurfio mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion busnesau ac unigolion a'r heriau roeddent yn eu hwynebu.

**2.30** Mae ein Hadroddiad Safonol ar gyfrifon Cyllid a Thollau EM 2020-21 yn cynnwys manylion pellach ar effaith COVID-19 ar weithgarwch cydymffurfiaeth a gwaith CThEM yn fwy cyffredinol.

<sup>5</sup> Trysorlys EM, *Treasury Minutes: Government responses to the Committee of Public Accounts on 'Tackling the tax gap, Twentieth Report of Session 2019-2021'*, Ionawr 2021.

**2.31** Mae ein hadroddiad *Managing tax debt through the pandemic* yn manylu ar y ffordd y newidiodd CThEM ei waith rheoli dyledion mewn ymateb i'r pandemig.<sup>6</sup> Bydd y ffordd y caiff dyledion treth eu rheoli gan CThEM yn effeithio ar faint o dreth incwm nas telir yn y lle cyntaf a gesglir maes o law ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru.

**2.32** Mewn ymateb i'r pandemig, penderfynodd CThEM atal y rhan fwyaf o'i weithgarwch casglu dyledion dros dro a chreu cynlluniau cymorth cyflogaeth newydd i ddarparu grantiau i gyflogwyr a phobl hunangyflogedig er mwyn helpu i ddiogelu swyddi. Canfuwyd bod y balansau dyledion ar gyfer treth incwm TWE a Hunanasesu yn uwch yn 2020-21 nag yr oeddent cyn y pandemig, ac er bod y ddau falans yn lleihau erbyn mis Mawrth 2021, nid oeddent wedi gostwng i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Y balans dyledion cyfunol ar gyfer treth incwm TWE a Hunanasesu ar lefel y DU gyfan oedd bron £11 biliwn ar ddiwedd 2019-20 a mwy nag £16 biliwn erbyn diwedd 2020-21. Nid oes dadansoddiad o ddyledion treth incwm y gellir ei briodoli i Gymru ar gael ar hyn o bryd.<sup>7</sup>

**2.33** Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEM reolau a gweithdrefnau ar waith i asesu a chasglu treth incwm Cymru a'i fod yn cydymffurfio â hwy.

6 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Managing tax debt through the pandemic*, Sesiwn 2021-22, HC 799, Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Tachwedd 2021.

7 Ym mis Ionawr 2020, cyn i'r pandemig effeithio ar ddyledion treth, roedd balans dyledion y DU ar gyfer dyledion treth incwm TWE ychydig yn is na £4 biliwn. Erbyn mis Ebrill 2020, roedd wedi cynyddu i £10 miliwn a pharhaodd i gynyddu, gan gyrraedd bron £13 biliwn ym mis Mai. Fodd bynnag, erbyn mis Mawrth 2021, roedd wedi gostwng i tua £8 biliwn. Cynyddodd treth incwm Hunanasesu'r DU o £4 biliwn ym mis Ionawr 2020 i £5 biliwn ar ddechrau 2020-21. Parhaodd i gynyddu i tua £12 biliwn ym mis Awst, cyn dechrau gostwng. Erbyn mis Mawrth 2021, roedd tua £8 biliwn (adroddir pob gwerth yn unol â phrisiau 2021-22).

## Rhan Tri

### Costau

**3.1** Mae'r rhan hon yn ystyried costau gweinyddol treth incwm Cymru, ac a yw'r costau hyn yn rhesymol.

**3.2** O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyllid a Thollau EM (CThEM) a Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r olaf ad-dalu i CThEM gostau ychwanegol net y mae wedi mynd iddynt o ganlyniad i weinyddu pwerau treth incwm Cymru.

**3.3** Mae fframwaith ategol yn nodi'r egwyddorion ar gyfer nodi costau ychwanegol net. Mae CThEM yn ailgodi am gostau y gellir eu dilysu'n rhai sy'n ymwneud yn benodol â gweinyddu pwerau treth incwm datganoledig Cymru ac nid costau gweinyddu'r system treth incwm gyffredinol yng Nghymru.

#### Costau yr aed iddynt yn 2020-21

**3.4** Gwnaeth CThEM anfonebu Llywodraeth Cymru am £0.7 miliwn o gostau yn ymwneud â rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith a'u gweinyddu yn 2020-21. O'r swm hwn, roedd £0.5 miliwn yn ymwneud â chostau rhedeg ac £0.2 miliwn yn ymwneud â threuliau rhoi ar waith (**Ffigur 8**). Roedd y costau yn 2020-21 yn is nag oeddent yn 2019-20, yn bennaf am fod y costau a oedd yn gysylltiedig â rhoi Prosiect Treth Incwm Cymru ar waith wedi gostwng £1.2 miliwn. Yn 2019-20, ailgododd CThEM gwerth £2 filiwn o gostau, a oedd yn cynnwys £1.4 miliwn o gostau rhoi ar waith a £0.6 miliwn o gostau gweithredu.

**3.5** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEM yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, daethom i'r casgliad fod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru.

#### Costau prosiect hyd yma


**3.6** Mae CThEM wedi amcangyfrif bod rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith wedi costio rhwng £8 miliwn a £9 miliwn. Cyfanswm y gwariant wrth roi'r prosiect ar waith yw £7.7 miliwn. Mae'r prosiect i roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith wedi dod i ben erbyn hyn.



**Ffigur 8**

Gwariant gwirioneddol ar brosiectau treth incwm Cymru rhwng 2017-18 a 2020-21

Mae gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21 yn ymwneud â chostau gweithredu a chostau rhoi ar waith

**Noder**

1 Mae costau rhoi ar waith yn 2020-21 yn ymwneud â'r Crynodeb Treth Blynnyddol a dod â phrosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru i ben.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EM

# Atodiad Un

## Ein dull archwilio

**1** Mae Adran 80HA o Ddeddf Cymru 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny eu hasesu a'u casglu'n briodol;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEM sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEM fel treuliau gweinyddol.

**2** Er mwyn dod i'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r rheolau a'r gweithdrefnau a weithredir gan CThEM, gwnaethom ddefnyddio ein gwaith archwilio statudol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEM yn uniongyrchol, gan gynnwys adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar reolaethau CThEM ar gyfer asesu, casglu a dyrannu treth yn briodol o dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921. Gwnaethom hefyd gwblhau gweithdrefnau archwilio penodol dros reolaethau sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu trethi datganoledig.

**3** Gwnaethom archwilio'r data, y methodolegau, y tybiaethau a mecanwaith cyfrifo'r alldro referniw ar gyfer 2019-20 a'r referniw amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer yr amcangyfrif, a'r alldro lle y bo'n briodol, cynlluniwyd a chwblhawyd y gwaith hwn drwy gymhwyso egwyddorion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) 540 Amcangyfrifon Cyfrifyddu Archwilio a Datgeliadau Cysylltiedig, er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n berthnasol i natur yr amcangyfrifon ac ar lefel ddigon manwl.

**4** O ran costau gweinyddu, mae ein casgliad ynglŷn â chywirdeb a thegwch costau CThEM a godwyd ar Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar werthusiad o'r costau yn erbyn manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r fframwaith ategol ar gyfer costau y cytunwyd arnynt rhwng y ddau barti. Amcangyfrifodd CThEM rai o'r costau yr aed iddynt o'r data sydd ar gael ar gysylltiadau cwsmeriaid ac amser staff. Yn ystod yr archwiliad, gwelsom dystiolaeth hefyd fod y ddau barti yn trafod ac yn adolygu cyllidebau a rhagolygon costau yn rheolaidd yn ogystal â chytuno ar unrhyw symiau i'w hanfonebu a'u talu.

**5** Cafodd yr holl weithdrefnau archwilio hyn eu cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu yn unol â'n gweithdrefnau rheoli ansawdd mewnol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

**6** Er mwyn gwerthuso'r ffordd y mae CThEM yn ymdrin â risgiau i gydymffurfiaeth, adolygwyd dogfennau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig CThEM ynglŷn â threth incwm Cymru, gan gynnwys dogfennaeth y prosiect, dogfennaeth risg a chydymffurfiaeth, a manylion gwaith sicrwydd allweddol a wnaed gan CThEM.

**7** Cafodd yr adolygiad hwn o ddogfennau ei ategu gan gyfweiliadau lled-strwythuredig â staff CThEM mewn sawl un o'i feysydd busnes. Gwnaethom hefyd siarad â Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i lywio ein hasesiad o risg a'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8** Lluniwyd ein canfyddiadau ar ôl dadansoddi dystiolaeth a gasglwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2021.







Mae'r adroddiad hwn wedi'i argaffu ar Evolution Digital Satin ac mae'n cynnwys deunydd a geir o goedwigoedd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n gyfrifol ac sydd wedi'u hardystio yn unol â'r FSC (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd).

Mae'r mwydion coed yn hollol ailgylchadwy ac yn rhydd o asid. Mae gan ein hargraffwyr hefyd achrediad amgylcheddol ISO14001 llawn, sy'n sicrhau bod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i reoli gwastraff ac arferion a all effeithio ar yr amgylchedd.



National Audit Office

Dylunio a Chynhyrchu gan Dîm Cyfathrebu NAO  
DP Ref: 008570

£10.00

ISBN 978-1-78604-407-5



9 781786 044075